

## CYFFES FFYDD

### 24. Am gyfiawnhad.

Cyfiawnhad sydd weithred o rad ras Duw, yn cyfrif ac yn cyhoeddi dyn yn gyfiawn, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo, yr hwn a dderbynnir gan y pechadur trwy ffydd (a). Y mae Duw yn dangos ei gyfiawnder, ac anrhydedd ei gyfraith, yn gystal a'i ras a'i drugaredd, wrth gyfiawnhau pechaduriaid, gan ei fod yn eu cyfiawnhau " trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, yr hwn a osododd Duw yn lawn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu" (b). Gelwir cyfiawnder Crist, trwy yr hwn y cyfiawnheir pechaduriaid, "y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd" (c). Nid yw yn addas rhoddi lle cyfiawnder Crist i ffydd, mwy na rhoddi lle yr haul i'r ffenestr sydd yn derbyn ei oleuni. Y mae cyfiawnhad yn cynnwys ynddo faddeuant i'r troseddwr o'i holl gamweddau, fel na byddo farw o'u herwydd (d), codi y person i ffafr Duw (e), a rhoddi iddo hawl gyfreithlon i fwynhad o ddedwyddwch tragwyddol. Y mae yn cael ei alw "cyfiawnhad bywyd," (f) am fod y troseddwr trwy hynny yn cael ei wneud yn "etifedd bywyd tragwyddol" (g).

### **24. Of Justification.**

*Justification is an act of God's free grace, wherein he accounts and declares a man righteous by imputing to him the righteousness of Christ, which the sinner receives by faith (a). In the justification of sinners, God manifests his righteousness and the honor of his law as well as his grace and mercy; inasmuch as he justifies them "through the redemption*

*that is in Christ Jesus, whom God hath set forth to be a propitiation, that he might be just, and the justifier of him which believeth in Jesus” (b). The righteousness of Christ, whereby sinners are justified, is called “the righteousness which is of God by faith” (c). It is not befitting to ascribe to faith the merit that belongs only to the righteousness of Christ : that would be to confound the sun with the window that transmits the light. Justification contains in itself pardon of all the sinner’s transgressions, that he perish not because of them (d); the acceptance of his person in the sight of God (e), and the giving him a lawful claim to the enjoyment of eternal happiness. It is called “justification of life (f)”, and the transgressor is thereby made the “heir of eternal life” (g).*

**(a) Eseia/Isa. 45:25, 54:17; Jer. 23:6; Phil. 3:9; 2 Cor. 5:21; Rhuf./Rom. 3:22, 24-25, 4:5, 5:1,19; Actau/Acts 13:38-39; Dan. 9:24; Eff./Eph. 2:8.**

**(b) Rhuf./Rom. 3:24-26, 4:25, 5:8, 19, 10:4; Eseia/Isa. 53:11; 2 Cor. 5:21, gwêl/see (a); Eff./Eph. 5:2; Titus 3:7.**

**(c) Phil. 3:9; Gal. 2:16; Rhuf./Rom. 3:28, 5:1.**

**(d) Salm/Psa. 32:1-2; Rhuf./Rom. 4:3-9.**

**(e) 2 Cor. 5:21 gwêl/see (a); Rhuf./Rom. 5:1 gwêl/see (a); Eseia/Isa. 32:17.**

**(f) Rhuf./Rom. 5:2,18.**

**(g) Titus 3:7; Rhuf./Rom 8:30.**